

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Cofrestru ac Ardystio

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad at Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amgylchiadau lle gall dysgwyr gofrestru gyda'r Coleg, a'r holl drefniadau cofrestru ac ardystio sydd ar waith ar gyfer yr holl gymwysterau a rhaglenni ardystiedig rydym yn eu cynnal.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Coleg, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn y Coleg.

Datganiadau'r Polisi

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y polisi hwn, bydd y Coleg yn:

- Dilyn y gweithdrefnau a amlinellwyd yn y corff dyfarnu perthnasol.
- Sefydlu rolau a chyfrifoldebau staff sydd ynghlwm â'r gweithdrefnau cofrestru ac ardystio.
- Hyfforddi'r staff hynny yn briodol.
- Cofrestru dysgwyr unigol ar y rhaglen, cymhwyster neu ganolfan cywir o fewn y cyfnod amser y cytunwyd arno.
- Cofrestru pob dysgwr yn ôl gofynion y sefydliad dyfarnu.

.Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	09/24

- Sicrhau bod pob dysgwr yn ymwybodol o'i statws cofrestru.
- Cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am fyfyrwyr yn tynnu'n ôl, newid i goleg arall, neu newid i fanylion dysgwr.
- Hawlio tystysgrifau dilys dysgwr o fewn cyfnodau amser cytunedig.
- Sicrhau bod hawliadau tystysgrifau yn seiliedig ar gofnodion asesiadau neu ddata arholiadau sydd wedi'u dilysu'n fewnol.
- Sicrhau bod cofnodion cofrestru, cyflawni ac ardystio cywir, diweddar ac archwiliadwy'r ganolfan yn cael eu cynnal yn unol â gofynion y bwrdd arholi.
- Sicrhau bod data a chofnodion personol yn cael eu prosesu a'u cadw'n unol â rheolau'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a Pholisi Diogelu Data CAVC.
- Cadw'r holl gofnodion yn ddiogel ar gyfer y cyfnod amser a benodir gan y corff dyfarnu.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod adnoddau digonol mewn lle i gynnal y dyletswyddau sydd wedi'u hamlinellu.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol

Mae'r Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth/Technoleg Gwybodaeth yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo i fodloni gofynion y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r uwch dîm Ansawdd yn gyfrifol am:

- Gynnal pa mor gyfredol yw'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod gweithdrefnau'r corff dyfarnu a'r Sefydliad Addysg Uwch yn cael eu dilyn bob amser.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

.Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu	09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu	09/24
Nesaf:	

cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion a'u gwella.

Mae'r holl Staff Addysgu a Chefnogi Sgiliau yn gyfrifol am:

- Weithredu yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a hysbysu eu rheolwyr llinell am unrhyw weithgarwch sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Bod yn ymwybodol o weithdrefnau eu corff dyfarnu perthnasol neu Sefydliad Addysg Uwch.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Canllaw sefydliadau dyfarnu.
Deddf Diogelu Data 2018

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r iaith Gymraeg neu'r iaith Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim

Polisiau Cysylltiedig

- Polisi Diogelu Data
- Cwynion
- Bwllo ac Aflonyddu
- Derbyniadau
- Addysgu a Dysgu
- Disgyblu Staff
- Addas i Astudio
- Datgelu

.Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	09/24

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Y Weithdrefn Gwyno
- Diogelu Data
- Derbyniadau
- Datgelu
- Addysgu a Dysgu
- Bwlio ac Aflonyddu
- Addas i Astudio

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Lleoliad a Chael Gafael ar y Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan ac efallai na fydd yn gyfredol os caiff ei argraffu. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo:	13 Chwefror 2015
Cymeradwywyd gan:	CQSA/Y Prif Fwrdd
Dyddiad adolygu:	30 Medi 2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu
Arweinydd Gweithredol:	Is-bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr
Hygyrch i Fyfyrwyr:	Ydy

.Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	09/22
Dyddiad Adolygu Nesaf:	09/24